# Prosiect *Pwyth mewn Pryd*

Mae prosiect newydd 15 mis i ymosod ar rywogaethau estron ymosodol (INNS) yng Nghwm Gwaun ar fin dechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Bydd prosiect *Pwyth mewn Pryd* yn targedu clymog Japan, Jac y neidiwr a Rhododendron sydd i gyd yn bresennol yn y cwm. Maent hefyd ymysg blaenoriaethau Cynllun Gweithredu ar Rywogaethau Dosbarthedig INNS yn Sir Benfro.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n cael ei gweinyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n talu am y prosiect. Gall INNS drechu rhywogaethau brodorol y DU; newid ecosystemau'n ffisegol a difrodi eiddo. Fe all rhai, fel yr efwr enfawr, fod yn niweidiol dros ben i iechyd dynol.

Anaml y bydd trin INNS yn dameidiog yn rhoi sylw i ffynonellau haint, sy'n awgrymu y bydd triniaeth yn gorfod parhau'n ddiderfyn. Nid yw triniaeth yn rhad – amcangyfrifwyd ei bod yn costio £1.7 biliwn y flwyddyn i reoli INNS yn y DU – felly, gwell atal na gwella.



***Rhododendron Ponticum***
Llun: RPS Group PLC

Oherwydd bod llawer o rywogaethau ymosodol yn ymledu ar hyd cyrsiau dŵr, mae'n ymddangos y byddai'n gost-effeithiol rheoli, ac yna amddiffyn, dalgylch cyfan mewn ffordd unedig.


**PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP**

**PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO**

**Cyfrol 12 Rhifyn 1**
**Gwanwyn 2015**


## Yn y rhifyn hwn


**Prosiect *Pwyth mewn Pryd*** — *Tudalennau 1—2*

**Gemau yn y môr… nid eich malwen ddu gyffredin!** — Tudalen 3

**Bywyd Gwyllt Sir Benfro i Gael Hwb** — Tudalennau 3—4

**Prosiect Gwylwyr Môr Cymru** — Tudalennau 4—5

**Cors Poppit – o ddrysni coedwig fromlys i lwybr agored i bawb** — Tudalen 5

**Digwyddiadau** — Tudalennau 6—7

**Manylion Cysylltu** — Tudalen 8


Sustainable Development Fund / Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

sea watch FOUNDATION

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro / Pembrokeshire Coast National Park


**Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**
**anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551**

Bydd y prosiect, sy'n cael ei reoli gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn rhoi prawf ar ddull o'r fath yng Nghwm Gwaun.

Un o nodau canolog y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth o INNS ymhlith sefydliadau, unigolion a chymunedau a meithrin gallu cymunedau lleol i gadw golwg arnynt a'u rheoli ac unrhyw rai sy'n dychwelyd eto.

Bydd prosiect *Pwyth mewn Pryd* yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o gynlluniau eraill, gan gynnwys Prosiectau Difodi Jac y Neidiwr o ardal Cemais yn ddiweddar, hefyd gyda chyllid Cronfa Datblygu Cynaliadwy.

Cydlynydd Prosiect newydd *Pwyth mewn Pryd* yw Dr Ali Wright, fydd yn ymuno ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn y Flwyddyn Newydd.




**Dr Ali Wright**

Meddai Ali, Cydlynydd y Prosiect: "Rwy'n ferch leol, wedi fy magu yn Llanrhystud lle'r oedd fy rhieni'n rhedeg tafarn y pentref. Cefais radd mewn Llysieueg o Brifysgol Aberystwyth ac, yn ddiweddarach, PhD o Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) yn Aberystwyth.

"Fe fues i'n gweithio am chwe blynedd yn neddwyrain Lloegr fel ysgrifennwr gwyddonol, cyn symud yn ôl i Geredigion i weithio fel gwyddonydd maes ar raglen fagu *Miscanthus* yn IGER.

"Ers hynny rwyf wedi gweithio yng Nghangen Biotechnoleg ac Iechyd Planhigion Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Cod Ymarfer ar lysiau'r gingroen, yn cynorthwyo ar y ddogfen ymgynghori sy'n cau planhigion a addaswyd yn enetig allan o Gymru ac yn asesu ceisiadau i gyflwyno planhigion i'r Rhestr Genedlaethol.

"Yn fwy diweddar, gweithiais fel Arolygydd *Phytophthora* i'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) lle'r oeddwn yn cynnal arolygon o afiechyd planhigion yng Ngogledd Cymru a gogledd Lloegr. Roedd hyn yn golygu rheoli safleoedd haint, gweithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid a chyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant *Phytophthora*. Roedd bioddiogelwch yn ystyriaeth allweddol.

"Ers gadael FERA, rwyf wedi sefydlu fy musnes fy hun yn arbenigo mewn ailwampio a phaentio dodrefn hynafol ac o dras, wrth ddilyn hyfforddiant fel clustogwr proffesiynol.

"Mae prosiect *Pwyth mewn Pryd* yn gyfle i ddychwelyd i'm gwreiddiau ac yn agwedd gyffrous, seiliedig ar y gymuned at reoli rhywogaethau ymosodol. Allaf i ddim aros i gael dechrau arni!"

Cofiwch gysylltu os hoffech roi gwybod am unrhyw rywogaethau targed yn nalgylch Afon Gwaun, neu wneud gwaith ymarferol fel rhan o'r prosiect. E-bost: info@pembrokeshirecoast.org.uk Ffôn: 0845 345 7275.

**Michel Regelous**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Sustainable Development Fund
Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Gemau yn y môr… nid eich malwen ddu gyffredin!

Gwlithenni môr yw anifeiliaid rheibus 'byd gwlithod y môr' ac, fel eu cefndryd daearol, mae ganddynt chwant mawr. Fodd bynnag, yn wahanol i'r gwlithod daearol, maent yn odd mewn amrywiaeth enfawr o siapiau a lliwiau disglair. Yr enw gwyddonol arnynt yw 'noethdagellog', sy'n cyfeirio at yr organau anadlu allanol fel y plu breichiol neu chwyddau fel pastynau sydd i'w cael ar y corff allanol.

Mae gwlithod môr yn ysglyfaethus, pob rhywogaeth yn aml yn porthi ar un math o greadur ysglyfaeth yn unig. Felly, mae angen bod amrywiaeth eang o fwyd ar gael i gynnal llawer iawn o rywogaethau gwlithod môr. Oherwydd eu bod ar ben y gadwyn fwyd mae eu presenoldeb yn dangos bod y cymunedau y maent yn dibynnu arnynt yn iach hefyd.



***Okenia elegans* – un o rywogaethau anfynych ledled y DU**
Llun: Hayden Close

Mae gwlithod môr yn osgoi dod yn ysglyfaeth eu hunain oherwydd bod ganddynt beirianwaith amddiffyn cemegol craff iawn. Fe all rhai ohonynt gynhyrchu eu cemigion eu hunain tra bo eraill yn crynhoi'r gwenwynau o'u hysglyfaeth gan eu gwneud eu hunain yn wenwynig i ysglyfaethwyr.



***Flabellina pedata***
Llun: Phil Newman

Yng Ngwarchodfa Natur Forol Sgomer mae amrywiaeth mawr o rywogaethau gwlithod môr, gyda 68% o rywogaethau'r DU yn cael eu cynrychioli mewn dim ond 13.3 cilomedr sgwâr. Cofnodwyd 75 rhywogaeth ers dechrau cofnodion y Warchodfa yn 1975 ac, yn ystod haf 2014, cafodd arolwg unswydd hyd i 51 rhywogaeth mewn pythefnos. Mae'r amrywiaeth mawr hwn yn adlewyrchu amrywiaeth eang y cymunedau sydd i'w cael yn y Warchodfa – o greigresi sy'n cael eu hysgubo gan y llanw i faeau cysgodol a chymunedau gwaddod cyfoethog.

**Kate Lock**
Gwarchodfa Natur Forol Sgomer

# Bywyd Gwyllt Sir Benfro i Gael Hwb

Mae Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyfoeth Naturiol, wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer pedwar prosiect yn Sir Benfro dan y Gronfa Natur £6m a gyhoeddwyd y llynedd. Mae'r gronfa'n anelu at brosiectau ar hyd a lled Cymru sy'n mynd i'r afael â bioamrywiaeth sy'n dirywio a dod â buddiannau i gymunedau.

Mae'r prosiectau a gymeradwywyd i'w cyllido yn Sir Benfro'n dangos amrywiaeth y dulliau gwarchod bioamrywiaeth sy'n dod yn bosibl trwy gydweithio agos rhwng y lliaws rhanddeiliaid gweithredol yn ein sir.

Mae Fforwm Arfordirol Penfro'n arwain partneriaeth rhwng rheolwyr tir, busnes, diwydiant, y llywodraeth a sefydliadau'r trydydd sector i leihau gollyngiadau maetholion i ddalgylch afon Cleddau.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn arwain cydweithrediad rhwng amryw sefydliadau i ddatblygu templed y bydd modd ei ailadrodd at wella ansawdd a chysylltedd ecolegol rhwng safleoedd gwarchod natur o werth mawr, gyda manteision ychwanegol i gymunedau lleol. Bydd y prosiect yn digwydd ar benrhyn Castellmartin a'r gobaith yw cynhyrchu 'pecyn cymorth' y bydd modd ei ddefnyddio i ailadrodd y prosiect mewn mannau eraill.

Bydd Coed Cymru a'r Ymddiriedolaeth Afonydd yn gweithio ar hyd a lled canolbarth a gorllewin Cymru mewn prosiect cydweithredol sy'n canolbwyntio ar y dirwedd amaethyddol i wella ansawdd y dŵr mewn dalgylchoedd afonydd.

Bydd prosiect Moroedd Byw Pysgodfeydd y dyfodol yn hyrwyddo arferion pysgota bach eu heffaith i helpu rhywogaethau a chynefinoedd ddod dros arferion anghynaladwy blaenorol.

Mae disgwyl i'r prosiectau i gyd fod yn gyflawn erbyn haf 2015 a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu'n eang i ysbrydoli rhagor o waith.

**Ant Rogers**
Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Prosiect Gwylwyr Môr Cymru

Bu'n flwyddyn gyntaf brysur i Brosiect Gwylwyr Môr Cymru. Ar ôl cael cymorth ariannol Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, bu Sefydliad Gwylio'r Môr yn gweithio'n galed i hybu arolygu trefnus trwy wyddoniaeth y dinesydd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o forfilod a dolffiniaid Cymru. Bu'r prif ganolbwynt ar waith maes a chyrsiau hyfforddiant, gyda thros 100 o wirfoddolwyr yn elwa ar gyrsiau a gynhaliwyd gan ein Swyddog Datblygu Cymreig drwy Gymru ben baladr i addysgu ac ysbrydoli'r cyhoedd i fod yn rhan o gadwraeth forol.


**Gwylwyr y môr ar waith**

Yn Sir Benfro, mae Canolfan Faes Caer Dale a Chanolfan y Parc Cenedlaethol yn Ninbych-y-pysgod wedi cynnal cyrsiau a sgyrsiau ar gyfer pobl sydd â diddordeb a, diolch i gymorth caredig y RSPB a Thousand Island Expeditions, bu modd i wirfoddolwyr lleol gynnal arolwg morfilod o'r tir ar Ynys Dewi ar gyfer Gwylfa Genedlaethol flynyddol Morfilod a Dolffiniaid Gwylio'r Môr ym mis Gorffennaf.

Yn fwy diweddar helpodd gwirfoddolwyr Gwylio'r Môr achub morfil sberm pigmi prin oddi ar lannau Ynys Môn, a ddychwelwyd i'r môr yn llwyddiannus.

Wrth fynd i'n hail flwyddyn, rydym yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant y flwyddyn gyntaf ond mae arnom angen rhywfaint o gymorth i wneud hyn! Rydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr i fod yn rhan o'r prosiect yn rheolaidd. Pa un ai ydych newydd raddio o'r brifysgol, yn weithiwr proffesiynol bywyd gwyllt neu heb ddim ond diddordeb personol cryf yn y pwnc, rydym eisiau clywed gennych, mae croeso i bawb! Mae gweithgareddau'n cynnwys popeth o drefnu gwylio morfilod o'r tir i gofnodi data; o gyfranogi mewn arolygon cychod i roi sgyrsiau cyhoeddus a hyrwyddo'r prosiect ar gyfryngau cymdeithasol.

Os ydych yn meddwl y gallwch helpu, rydym eisiau clywed gennych! Yn arbennig rydym yn ceisio adeiladu ar ein hymgyrch i dynnu sylw'r cyhoedd ac yn gobeithio denu mwy o wirfoddolwyr fel cyflwynwyr Gwylio'r Môr, i roi sgyrsiau mewn ysgolion a chyflwyno gweithgareddau hwyliog ac addysgol i gadwraethwyr ifanc y genhedlaeth nesaf.

Fel arall, os ydych yn chwilio am sgyrsiau a gweithgareddau ar gyfer eich grŵp bywyd gwyllt lleol, cymdeithas prifysgol neu ddim ond grŵp o gyfeillion â diddordeb, beth am gysylltu i drefnu cwrs hyfforddiant morfilod?

I gael rhagor o wybodaeth, cofiwch gysylltu.

**Katrin Lohrengel**
Swyddog Datblygu Cymru
katrin.lohrengel@seawatchfoundation.org.uk

## Cors Poppit – o ddrysni coedwig ffromlys i lwybr agored i bawb

Mae byd rhyfeddol o fywyd gwyllt wedi agor i blant gydag anableddau yng Nghors Poppit, ar ôl i grŵp gwirfoddolwyr ymuno â Cheidwaid a Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i greu llwybr ag wyneb iddo.

Ers 2010 mae Cymdeithas Llandudoch wedi bod yn clirio'n drefnus 18 erw o'r rhywogaeth ymosodol Jac y neidiwr o'i darddle ar ben nant i Gors Poppit, lle mae llwybr troed graean hygyrch yn rhedeg drwyddo.

Meddai Geraint Harries, Rheolwr Wardeiniaid Ardal Ogleddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol: "Atgyweiriodd staff yr Awdurdod y llwybr i safon cadair olwynion tra bu gwirfoddolwyr diwyd Cymdeithas Llandudoch yn ymosod yn drefnus ar yr ardaloedd corslyd lle mae'r 'perygl pinc' hwn yn tyfu ar bwys y llwybr."

Meddai Gill Wislocka, gwirfoddolwr sy'n hen law gyda Chymdeithas Llandudoch ac wrth ei bodd gyda'r cyfleuster newydd: "Roeddwn yn teimlo'n ddagreuol bron wrth weld teuluoedd gyda phlant anabl ar y llwybr newydd hygyrch i gadeiriau olwyn trwy Gors Poppit. "Mae'n bleser bod y plant hyn yn gallu mynd drwy'r gors, nid fel rhyw nodwedd 'anabledd' arbennig ond fel llwybr arferol y bydd teuluoedd eraill yn ei ddefnyddio. Nawr bod llawer iawn llai o'r ffromlys, gall pobl weld y nant, bronwennod y dŵr, harddwch ac amrywiaeth y blodau a phlanhigion fel yr hesg rhafunog. Maent hefyd wedi gweld brogaod bach yn croesi'r llwybr ac wedi clywed cân yr adar, sy'n llawer mwy amrywiol nag yr oedd pan oedd yr ardal hon yn ddim ond coedwig Jac y neidiwr."

Ychwanegodd ei bod wedi siarad â rhai o'r ymwelwyr, oedd eisiau diolch i Awdurdod y Parc Cenedlaethol am greu llwybr sydd wedi 'gwneud gwyliau'n llawenydd ac yn fan lle byddant yn dychwelyd'.


Aelodau Cymdeithas Llandudoch ar Gors Poppit

Meddai'r Cynghorydd Mike James, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: "Rydym o hyd yn gweithio i wneud mwy a mwy o Arfordir hardd Sir Benfro'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion, pobl gyda chadeiriau gwthio a'r rhai sy'n llai abl. Cymdeithas Llandudoch roddodd hwb cyntaf y prosiect hwn trwy wneud ymdrechion aruthrol mor i glirio ardal Jac y neidiwr.

"Mae bob amser yn ddymunol gallu gweithio gyda chymunedau yn y Parc Cenedlaethol i beri gwelliannau gwirioneddol ac rwy'n hynod falch bod y llwybr erbyn hyn yn cael ei ddefnyddio mor dda gan bobl leol ac ymwelwyr."

I weld rhagor o lwybrau hygyrch i gadeiriau olwyn ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ymwelwch ag www.pembrokeshirecoast.org.uk/WalksForAll

**Janet O'Toole**
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth Ionawr—Ebrill

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 12/01/15 | Troellwyr Mawr Coedwig Brechfa | Sgwrs â darluniau gan Paddy Jenks yng Nghanolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlffordd. | John Steer 01646 278966 |
| 04/02/15 | Bywyd Morol Bae Ceredigion | Cyflwyniad gan Ben Sampson, Cyngor Sir Ceredigion yn Neuadd Eglwys Babyddol Aberteifi. | Margaret 01239 621512 |
| 07/02/15 | Taith Gerdded – Harbwr Abergwaun | Taith Gerdded ar forglawdd allanol Harbwr Abergwaun i chwilio am bibyddion duon, morfilod a rhywogaethau eraill. | John Steer 01646 278966 |
| 15/02/15 | Adeiladu Tŷ Pryfed neu Flwch Adar | Adeiladu eich nodwedd bywyd gwyllt eich hun yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran. | 01239 621600 |
| 17/02/15 | Wyddoch Chi Beth yw LBAP? | Sgwrs gan Ant Rogers, Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth yn Nhŷ'r Ffowndri, Penfro. | Nikki Anderson 01646 686469 |
| 18/02/15 | Gwneud Porthwr Adar o Helyg | Ymunwch â dosbarth meistr Michelle Cain, arlunydd a cherflunydd, ar adeiladu porthwr adar o helyg yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran. | 01239 621600 |
| 20/02/15 | Gwneud Eich Cynefin Bywyd Gwyllt Bach Eich Hun | Creu eich gardd fywyd gwyllt fach eich hun yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran i fynd adref a'i gwylio'n datblygu. | 01239 621600 |
| 22/02/15 | Adeiladu Tŷ Pryfed neu Flwch Adar | Adeiladu eich nodwedd bywyd gwyllt eich hun yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran. | 01239 621600 |
| 04/03/15 | Sgwrs â Darluniau ar Ystlumod | Sgwrs â darluniau ar ystlumod gan Bob ac Annie Haycock yn Neuadd Eglwys Babyddol Aberteifi. | Margaret 01239 621512 |
| 09/03/15 | Y Glöyn Byw Brithribin Brown | Sgwrs â darluniau gan David Redhead yng Nghanolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlffordd gyda phwyslais arbennig ar sut hwyl sydd arno yn Sir Benfro. | John Steer 01646 278966 |
| 17/03/15 | Ymlusgiaid, Amffibiaid ac Ychydig Mwy | Sgwrs gan Rob Parry, Rheolwr Cadwraeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn Nhŷ'r Ffowndri, Penfro. | Nikki Anderson 01646 686469 |
| 01/04/15 | Sgwrs â Farluniau ar Ddyfrgwn (a'r CCB) | CCB byr Cangen Leol yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, yn cael ei ddilyn gan sgwrs ar Ddyfrgwn gan Rob Parry, Rheolwr Cadwraeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn Neuadd Eglwys Babyddol Aberteifi. | Margaret 01239 621512 |

**Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**
**anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551**

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth Ionawr—Ebrill

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 12/04/15 | Taith Gerdded o Gwmpas Penrhyn y Santes Ann | Taith Gerdded o gwmpas Penrhyn y Santes Ann i chwilio am arwyddion y Gwanwyn. | John Steer 01646 278966 |
| 13/04/15 | Sgwrs â Darluniau ar Warchodfa Natur Leol Freshwater East | Sgwrs gan Vicky Tomlinson yng Nghanolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlffordd. | John Steer 01646 278966 |
| 18-21/04/15 | Penwythnos Tywysedig Gwylio Adar ar Ynys Sgomer | Ymuno â’r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar y penwythnos arbennig hwn o wylio adar. Rhaid cadw lle. | 01239 621600 |
| 21/04/15 | Canolfan Darwin – Elusen Leol | Bydd Marten Lewis, Rheolwr Canolfan Darwin, yn siarad am waith y Ganolfan yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ’r Ffowndri, Penfro. | Nikki Anderson 01646 686469 |

facebook

## Ymweld â ni ar Facebook: https://www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity

## Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

**This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.**

*Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.*

## Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

## Aelodau PBSB

| | |
|---|---|
| Cymdeithas y Tirfeddianwyr | Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro |
| Undeb Amaethwyr Cymru | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt | Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu |
| Cadwch Gymru'n Daclys | Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru |
| Manor House Wildlife Park | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro | Llywodraeth Cymru Welsh Government |
| Cyngor Sir Penfro | Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |